<u>**Y pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ARD 07-02 (3)**</u>

**Cyfarfod: 1 Mai 2002**

**YMGYNGHORIAD: GWEITHREDU'R AMLEN GENEDLAETHOL DDEFAID AR GYFER SAPS 2003 A THU HWNT**

<u>Pwrpas</u>

1. Rhoi cyngor i'r Pwyllgor ar yr ymgynghoriad arfaethedig yng Nghymru ar gynigion i weithredu'r darpariaethau amlen genedlaethol, o 2003 ymlaen, sydd wedi'u cynnwys yng Nghyfundrefn Cig Defaid a Chig Geifr yr UE (o dan yr hyn sy'n cael ei alw'n fwy cyffredin yn Gynllun Premiwm Blynyddol Defaid - SAPS).

2. Mae drafft o'r papur ymgynghori arfaethedig wedi'i amgáu.

<u>Argymhelliad</u>

3. Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried yr amrywiaeth o opsiynau a gyflwynwyd i ymgynghori arnynt.

<u>Cefndir</u>

4. Mae'r cefndir manwl wedi'i nodi ym mharagraffau 1-10 y ddogfen ymgynghori ddrafft.

5. I grynhoi, yn sgil y diwygiadau i gyfundrefn Cig Defaid yr UE a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2002, cyflwynwyd amlen genedlaethol sy'n golygu y gellir gwneud taliadau ychwanegol, a fydd o fudd pellach i gynhyrchwyr defaid. Gellir cymhwyso'r amlen genedlaethol ar lefel ranbarthol o fewn aelod-wladwriaeth. Ar gyfer y DU, cytunwyd y byddai pob un o'r gwledydd cyfansoddol yn dyfeisio eu trefniadau eu hunain ar gyfer cymhwyso'r amlen genedlaethol.

6. Ar gyfer y DU, mae €20.16 miliwn ar gael bob blwyddyn i ariannu gweithgareddau o dan yr amlen genedlaethol. Mae'r lefel ariannu hon yn seiliedig ar y defnydd o hawliau cwota yn hanesyddol. Y gwerth blynyddol i Gymru yw €5.54 miliwn sy'n gyfwerth â £3.5 miliwn, o'i gyfnewid ar y raddfa bresennol.

7. Mae'r ymgynghoriad arfaethedig yn ymwneud â'r flwyddyn SAPS 2003 a thu hwnt. Ar gyfer y flwyddyn 2002, h.y. taliadau sy'n ddyledus o 16 Hydref eleni, penderfynwyd defnyddio'r adnodd yn yr amlen genedlaethol fel taliad sy'n ychwanegol at y premiwm cyfradd sefydlog y gall cynhyrchwyr ei hawlio am anifeiliaid cymwys. Amcangyfrifir y bydd hyn yn sicrhau €1.2 (£0.75) yn ychwanegol fesul

anifail cymwys. Bydd gwerth terfynol y taliad ychwanegol arfaethedig yn cael ei gyfrifo ar ôl i’r holl geisiadau SAPS 2002 gael eu prosesu.

Cyngor

8. Mae’r opsiynau ar gyfer defnyddio’r amlen genedlaethol yng Nghymru, o 2003 ymlaen, yn adlewyrchu’r cyngor a gafwyd gan y gweithgor a sefydlwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i archwilio’r gefnogaeth sydd i’r sector defaid (pwynt gweithredu yn "Ffermio ar gyfer y Dyfodol"). Mae aelodau’r grwp yn dod o sefydliadau diwydiannol ac amgylcheddol ac yn cynnwys swyddogion ARAD.

9. Mae’r grwp hefyd yn ystyried cynigion ar gyfer cynllun i olynu’r cynllun Tir Mynydd a fyddai’n cael ei gyflwyno yn 2004. Bydd gwahoddiad i’r Pwyllgor ystyried canlyniad y gwaith pellach hwn mewn cyfarfod yn y dyfodol.

10. Wrth ystyried opsiynau’r amlen genedlaethol, gofynnir i’r Pwyllgor nodi bod yn rhaid gweld y £3.5 miliwn sydd ar gael bob blwyddyn yng nghyd-destun tua 12,000 o gynhyrchwyr defaid yng Nghymru, a hawliau cwota defaid o tua 5.3 miliwn. Yn ogystal, rhaid i’r defnydd arfaethedig o’r amlen genedlaethol gael ei ategu gan feini prawf gwrthrychol. Rhaid i’r meini prawf hyn gael eu cofnodi gan y Comisiwn, ynghyd â’r defnydd arfaethedig o’r amlen genedlaethol, bob blwyddyn.

11. Cynigir chwe opsiwn ar gyfer defnyddio’r amlen genedlaethol. Mae’r rhain wedi’u nodi ym mharagraff 11 y papur ymgynghori drafft. Dyma’r opsiynau:

- Cynorthwyo systemau defaid sydd â manteision arbennig o ran gwaith a’r amgylchedd
- Cynyddu’r premiwm cyfradd sefydlog
- Hyrwyddo systemau ffermio cymysg
- Annog gwarantu ffermydd, cydweithredu rhwng cynhyrchwyr a gwell marchnata
- Diogelu adnoddau defaid genetig a gwella cyfansoddiad genetig
- Prynu hawliau cwota

12. Mae’r materion allweddol y gwahoddir sylwadau yn benodol arnynt wedi’u cynnwys ym mharagraff 12 y papur ymgynghori.

13. Yng ngoleuni’r ymgynghoriad, bydd angen gwneud penderfyniadau yn gyflym ar ffurf yr amlen genedlaethol a’r manylion a gyhoeddir. Bydd hyn yn sicrhau bod cynhyrchwyr unigol yn cael y wybodaeth gywir, a’u bod yn gallu ystyried opsiynau’r amlen wrth gynllunio eu hymagwedd at y tymor masnachu cwota ym mis Medi.

14. Hefyd bydd angen i’r Cynulliad Cenedlaethol baratoi deddfwriaeth er mwyn cynorthwyo’r gwaith o weithredu’r amlen genedlaethol o 2003 (h.y. taliadau o fis Hydref 2003). Y bwriad yw cyflwyno’r

ddeddfwriaeth berthnasol yr hydref hwn.

15. Ar wahân i hyn, bydd angen i'r Cynulliad Cenedlaethol basio deddfwriaeth cyn yr haf er mwyn dod â chyfundrefn Cig Defaid ddiwygiedig yr UE a'r amlen genedlaethol ar gyfer y flwyddyn SAPS 2002 i rym. Mae gwaith rhagbaratöol ar y gweill erbyn hyn.

Materion Ariannol a Chydymffurfio

16. Ni chodwyd unrhyw faterion.

Argymhelliad

17. Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried yr opsiynau arfaethedig ar gyfer defnyddio'r amlen genedlaethol o'r flwyddyn SAPS 2003 a thu hwnt fel y'u nodwyd yn y ddogfen ymgynghori arfaethedig.

18. Yn ogystal, gofynnir i'r Pwyllgor nodi p'un a fyddai'n dymuno gweld crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad. Gellir paratoi hwn ar gyfer y Pwyllgor ond bydd cynhyrchwyr defaid am wybod y penderfyniadau terfynol am yr amlen genedlaethol erbyn mis Awst, fan bellaf.

Enw Cyswllt

Rosemary Thomas

Yr Is-adran Polisi Amaethyddiaeth a Physgodfeydd

Est: 6969